| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **2 Mehefin 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** |
| **Teitl:** | **Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad ar gyfer hysbysu Aelodau'r Cabinet o ganfyddiadau ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â dyfodol Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn a gofyn am gefnogaeth i gyhoeddi'r cynigion statudol hanfodol ar gyfer cau'r ddwy ysgol a chreu ysgol newydd.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad gan y Cabinet i roi cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf i greu ysgol newydd i wasanaethu ysgolion presennol Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad ffurfiol i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn ac agor ysgol newydd ar y ddau safle presennol.

(ii) Cymeradwyo cyhoeddiad hysbysiad statudol ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych i gau Ysgol Llanfair Dyffryn Clwyd ac Ysgol Pentrecelyn ar 31 Awst, 2016; a'r Eglwys yng Nghymru i sefydlu Ysgol Ardal newydd a Reolir yn Wirfoddol ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016.

(iii) Nodi'r dewis i rieni ymgeisio am le/anfon eu plant i Ysgol Pen Barras fel ysgol arall os ydynt am i'w plant aros mewn ysgol Categori 1.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Cyngor Sir Ddinbych, mewn partneriaeth ag Esgobaeth Llanelwy yr Eglwys yng Nghymru wedi cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar y cynnig i gau Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn o 31 Awst 2016 a sefydlu ysgol ardal newydd ar y safleoedd presennol o 1 Medi 2016. Dechreuodd yr ymgynghoriad ffurfiol ar 3 Chwefror, 2015 a daeth i ben ar 16 Mawrth 2015. Ar hyn o bryd, mae gan Ysgol Llanfair 94 o ddisgyblion llawn amser ac mae gan Ysgol Pentrecelyn 35 o ddisgyblion llawn amser (gweler Atodiad 1 ar gyfer dosbarthiad disgyblion). Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys amrywiaeth o gyfarfodydd ar gyfer rhanddeiliaid a holiadur i gael barn plant a rhieni. Cawsom 42 o lythyrau a

negeseuon e-bost, 96 o ffurflenni ymateb ar-lein, 63 o ffurflenni ymateb drwy’r post a 4 ffurflen ymateb gan blant. Mae crynodeb o'r holl sylwadau a gafwyd wedi’u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori Ffurfiol (gweler Atodiad 2).

Canfyddiadau'r Ymgynghoriadau Ffurfiol

4.2 O'r 205 o ymatebion, daeth 69 o ymatebion gan rieni. O’r 69 hyn, daeth 34 ohonynt gan rieni disgyblion Ysgol Llanfair a daeth 35 ohonynt gan rieni disgyblion Ysgol Pentrecelyn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o Ysgol Llanfair cefnogi'r cynnig tra bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o Ysgol Pentrecelyn yn gwrthwynebu'r cynnig. Mynegwyd y safbwyntiau canlynol gan yr ymatebwyr:

| **Mater** | **Pryder** | **Ymateb** |
|---|---|---|
| Iaith yr ysgol newydd | Roedd ymatebwyr o'r ddwy ysgol yn awyddus i gadw eu categori iaith unigol ac roeddent yn nodi effaith negyddol y newid | Ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad, cred y Cyngor y bydd Categori 2 yn caniatáu nifer uchel o ddisgyblion i barhau i gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Gwarant Darpariaeth Categori 2 | Sut y gellir gwarantu darpariaeth model cyfredol Categori 2 yn Ysgol Llanfair? Sut y gall yr ethos Cymraeg barhau i fod mor gryf yn yr ysgol ardal newydd? | Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i ddiogelu'r model presennol. Bydd statws yr ysgol hefyd yn cael ei fonitro yn flynyddol gan y Pennaeth Gwasanaethau Addysg |
| Cynnal Ethos yr Ysgol | Sut fydd yr awdurdod lleol a chorff llywodraethu'r ysgol newydd yn sicrhau y bydd yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn parhau i fod wrth wraidd yr ysgol? | Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu i sicrhau bod ethos cryf presennol y ddwy ysgol yn cael ei gadw. Bydd yr awdurdod yn gweithio gyda'r Corff Llywodraethu newydd i sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol yn cael eu mabwysiadu, gan gynnwys yr Offeryn Llywodraethu i ddiogelu'r sefyllfa hon. |
| Dynodiad Crefyddol | A ddylai'r ysgol newydd fod yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru? Cymorth ar gyfer hyn gan y rhai sy'n gysylltiedig ag Ysgol Llanfair. Mae eraill eisiau gwybod beth mae'n ei olygu, sut y mae'n wahanol? | Ar y cyfan, cafwyd cefnogaeth eang i'r ysgol gael ei dynodi yn ysgol yr Eglwys yng Nghymru. Bydd yr ysgol yn cael cymorth ychwanegol gan yr Esgobaeth. |

O ran sylwadau cadarnhaol ynghylch y cynigion y cytunwyd arnynt, roedd y rhan fwyaf o bobl yn cytuno mai ysgol ardal newydd i ddod â'r ddwy ysgol at ei gilydd oedd yr opsiwn cywir ar gyfer cynaladwyedd darpariaeth addysg yn y dyfodol yn yr ardal wledig hon, ac nad yw'r cyfleusterau yn y ddwy ysgol yn addas mwyach ar gyfer y cwricwlwm modern.

Effaith Iaith ar y Cynnig

4.3 Wrth ystyried yr ymatebion a gyflwynwyd, y prif faes o gynnen mewn perthynas â'r cynnig oedd categoreiddio'r ysgol newydd fel ysgol Categori 2. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o Ysgol Llanfair yn cefnogi dynodiad yr ysgol newydd fel ysgol Categori 2 (Ysgol Dwy Ffrwd) tra bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o Ysgol Pentrecelyn yn mynnu y dylai dynodiad yr ysgol gael ei adolygu gan roi blaenoriaeth i ysgol Categori 1 (Cyfrwng Cymraeg).

4.4 Dylai'r deilliannau ar gyfer disgyblion a addysgir o fewn y Ffrwd Gymraeg mewn ysgol Categori 1 neu ysgol Categori 2 fod yr un fath, sef beth bynnag fo iaith y cartref, byddant yn gallu trosglwyddo'n hawdd i ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ac, erbyn diwedd y cyfnod iau, byddant wedi cyrraedd safon Saesneg a fydd gyfwerth â'r hyn a gyrhaeddir gan ddisgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. (Gweler Atodiad 3 am ragor o wybodaeth) Y pryder gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr a oedd yn gwrthwynebu'r cynnig oedd na fyddai digon o fesurau diogelu ar waith i sicrhau y byddai ethos yr ysgol newydd yn cadarnhau'r ymrwymiad i sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac, mewn amser, y byddai safonau'n gostwng. O ganlyniad, mynegodd lawer y byddai'n well ganddynt gael ysgol Categori 1 yn hytrach nag anfon eu plant i'r ysgol ardal newydd.

4.5 Ar ôl adolygu nifer yr ymatebion, mae'r Cyngor yn dal i fod o'r farn y mai dynodi'r ysgol newydd fel ysgol Categori 2 fyddai'r opsiwn gorau o hyd ar gyfer cynnal, ac o bosibl ehangu nifer y disgyblion a gaiff eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Os bydd yr ysgol yn cael ei dynodi fel ysgol Categori 1, mae risg y gallai disgyblion o Ysgol Llanfair drosglwyddo i addysg cyfrwng Saesneg ac y byddai gostyngiad cyffredinol yn nifer y disgyblion a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, ar y cyfan, mae'r Cyngor yn dymuno bwrw ymlaen â'r cynnig cychwynnol.

4.6 Mae gan y Cyngor ymrwymiad clir o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i fwy o blant saith oed gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol i gynyddu'r capasiti ar gyfer Addysg Cyfrwng Cymraeg, gyda gwerth £7.1 miliwn o fuddsoddiad yn y sector cynradd i gynyddu capasiti ers 2010. Cymeradwywyd buddsoddiad pellach yn ardal Rhuthun hefyd. Ar lefel y tir, mae gwaith wedi mynd rhagddo i gynyddu mynediad i'r ddarpariaeth Ti a Fi, gyda grwpiau newydd yn cael eu sefydlu ym Modelwyddan a Rhuthun yn ddiweddar.

4.7 Bydd y Cyngor yn ystyried canfyddiadau'r adroddiad a gomisiynwyd ganddo ar gyfer "adolygiad manwl o'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn sgil y gostyngiad a welwyd yn nifer a chyfran pobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg yn y sir dros y degawd diwethaf, sef gostyngiad o 1.8% ers Cyfrifiad 2001 "ac yn

ystyried sut y mae'n bwriadu ymateb i'r canfyddiadau hyn. Mae'r gwaith a wnaed hyd yma wedi cefnogi twf yn y disgyblion sy’n cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg ers dyddiad y cyfrifiad diwethaf, ac mae'r Cyngor o'r farn y bydd y cynnig yn helpu i gynnal y twf hwn.

4.8 Mae'r dewis o ysgol yn dilyn cynnig trefniadaeth ysgolion bob amser yn fater o ddewis ar gyfer pob rhiant unigol. Os byddai rhieni o Ysgol Pentrecelyn yn dymuno anfon eu plant i Ysgol Pen Barras, Rhuthun (fel yr ysgol Categori 1 arall agosaf), yna byddai pob cais yn cael eu hystyried o fewn y trefniadau derbyn, yn amodol ar argaeledd lleoedd ac ati. O ran trafnidiaeth, mae’r polisi presennol yn datgan y "bydd yr Awdurdod yn darparu cludiant dewisol i'r ysgol agosaf sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, hyd yn oed os nad eu hysgol gymwys agosaf ydyw. I’r diben hwn, byddai'n ysgol sy'n cael ei chategoreiddio fel 1 neu 2 o fewn canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg.”

4.9 O ran mesurau diogelu ar gyfer statws yr ysgol, os byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Corff Llywodraethu i gynnal yr ethos cryf sydd yn y ddwy ysgol ar hyn o bryd. Bydd y Pennaeth Addysg yn monitro pob ysgol yn flynyddol drwy'r Grŵp Monitro Safonau Ysgolion a’r Grŵp Monitro Strategol Cymraeg mewn Addysg, yn ogystal â’i rôl fel Cyfarwyddwr Statudol dros Addysg i sicrhau cydymffurfiaeth â’u categori iaith perthnasol. Byddai'r Pennaeth Addysg yn darparu cefnogaeth uniongyrchol neu ymyriad pe bai pryderon yn codi. Er y bydd y polisïau o ran recriwtio a rheoli’r ysgol yn fater i'r Corff Llywodraethu, byddai'r Cyngor yn disgwyl i'r polisïau adlewyrchu gofynion ysgol i gyflawni canlyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn argymell bod penodiadau o'r fath yn cydymffurfio â sgiliau hanfodol Cymraeg ac yn ymyrryd lle nad yw hyn yn digwydd. Byddai Offeryn Llywodraethu’r Corff Llywodraethol hefyd yn adlewyrchu statws y Gymraeg yn yr ysgol newydd. Os byddai’r ysgol newydd neu’r Esgobaeth yn cynnig gwelliant i'w chategori iaith, byddai'r Cyngor yn ymgynghorai statudol, ac os byddai cynnig yn ymddangos na fyddai'n cyflawni'r canlyniadau y disgwylir gan Ysgol Categori 1 a 2, yna byddai'r Cyngor yn ceisio gwrthwynebu'r cynnig.

4.10 Bydd y Corff Llywodraethu yn cael ei ffurfio’n bennaf o staff yr ysgol, rhieni ac aelodau o'r gymuned, a chyfrifoldeb yr aelodau o’r gymuned fyddai cynnal yr ethos Cymraeg cryf sydd wedi bodoli yn y ddwy ysgol leol am flynyddoedd lawer. Yn seiliedig ar garfan gyfun bresennol y disgyblion, mae’r data diweddaraf yn awgrymu y byddai 81% o'r disgyblion hyn yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol newydd. Mae hyn yn cymharu â 73% o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Llanfair sy'n cael eu haddysgu yn y Ffrwd Gymraeg ar hyn o bryd.

<u>Y Ffordd Ymlaen</u>

4.11 Bydd yn ofynnol i'r Rhybudd Statudol gael ei gyhoeddi am 28 diwrnod. Yn ystod y 28 diwrnod hwn, bydd cyfle i unrhyw un sydd am wneud gwrthwynebiadau i'r cynnig wneud hynny. I gael eu hystyried fel gwrthwynebiadau statudol, rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig neu ar ffurf e-bost,

a'u hanfon at y cynigydd o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y cynnig ei gyhoeddi. Y bwriad yw, yn amodol ar gymeradwyaeth, y bydd y cynnig hwn yn cael ei gyhoeddi ar 18fed Mehefin 2015 gyda'r cyfnod gwrthwynebu yn dod i ben ar 15fed Gorffennaf 2015.

4.12 Yn dilyn y dyddiad hwn, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad gwrthwynebiadau a gofynnir i'r Cabinet ddefnyddio ei bwerau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i ystyried unrhyw wrthwynebiadau a gyflwynir ac i benderfynu a ddylid gweithredu'r cynnig.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth o "Wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd ein hadeiladau ysgol" ac wedi'i amlygu fel ffrwd waith fel a ganlyn: "Byddwn yn parhau i adolygu darpariaeth ysgol ar draws y Sir i sicrhau ein bod yn darparu'r nifer cywir o leoedd ysgol, a'u bod o'r math cywir, yn y lleoliad cywir.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Ni fydd llawer o gostau i'r Cyngor i gyhoeddi'r rhybuddion statudol. Costau postio ac argraffu yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad gwirioneddol fydd y costau hyn yn bennaf. Mae'r gofyniad am hysbysiadau o'r fath i'w cyhoeddi mewn papurau newydd lleol bellach wedi cael ei ddileu er mwyn lleihau costau o'r fath.

6.2 Os bydd yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo, mae wedi ei nodi y byddai'r arbedion arfaethedig yn fwy na'r costau cychwynnol tra bydd yr ysgol yn gweithredu ar ddau safle. Er mwyn symud ymlaen i gam dau, bydd angen gwneud gwaith dichonolrwydd ar y safleoedd posibl ac yna y safle a ffefrir hefyd. Bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan staff Cyllid ac Asedau. Bydd y costau ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei dalu o'r dyraniad presennol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol fel y cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Chwefror 2015.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

7.1 Os bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith, ni fyddai llawer o newid i staff a disgyblion ar y dechrau gan y bydd yr Ysgol Ardal newydd yn cael ei gweithredu o'r ddau safle presennol. Byddai pennaeth newydd a strwythur arweinyddiaeth newydd ar gyfer cam 1 a bydd gwaith yn dechrau ar unwaith ar y strwythur staffio ar gyfer yr adeilad newydd pan fydd y ddau safle wedi'u cyfuno. Gweler yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llawn yn Atodiad 4 am fanylion pellach.

## 8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad llawn gyda'r holl fudd-ddeiliaid ac mae crynodeb o'r cyfnod Ymgynghori Ffurfiol ym mhrif gorff yr adroddiad. Mae Corff Llywodraethu Ysgol Llanfair wedi ymateb yn gadarnhaol i'r ymgynghoriad gan roi cefnogaeth i'r cynnig symud ymlaen. Yn benodol, maent wedi cadarnhau bod "y Corff Llywodraethu a'r gymuned yn Llanfair a Pwllglas yn gwbl ymroddedig i ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg ac maent o'r farn mai'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw gwneud y gorau o'r nifer o blant sy'n rhugl yn y Gymraeg erbyn diwedd CA2. Dyma beth mae Ysgol Llanfair wedi llwyddo i'w gyflawni dros lawer o flynyddoedd."

8.2 Mae Corff Llywodraethu Ysgol Pentrecelyn wedi mynegi eu (ceir ymateb llawn yn Atodiad 2) barn, sef "nid ydym yn erbyn ffurfio ysgol newydd gan y bydd, yn ddiamau, yn gwella'r ddarpariaeth addysgol i bob plentyn yn yr ardal". Maent "yn erbyn cynnig Cyngor Sir Ddinbych i gael ysgol Eglwys yng Nghymru Categori 2 am ddau reswm, sef y categori iaith a'r ddarpariaeth ffydd". Yn eu hymateb, maent wedi awgrymu hefyd y dylid ystyried yr opsiynau canlynol:-

- Ffedereiddio gyda'r ysgolion categori 1 gwledig eraill - Ysgol Carreg Emlyn a Gwyddelwern gydag un pennaeth rheoli
- Ffedereiddio gydag Ysgol Pen Barras, er na fyddai hyn yn bodloni pryderon y Sir dros ôl-groniad cynnal a chadw ein hadeilad ac a fyddai rhieni yn tueddu i fynd i un o'r ysgolion newydd yn naturiol beth bynnag?
- Yr ysgol ardal newydd yn ysgol categori 1 a reolir gan y gymuned neu'n wirfoddol, a disgyblion sydd am gael addysg cyfrwng Saesneg (ac yn seiliedig ar ffydd) yn trosglwyddo i Ysgol Borthyn neu Ysgol Llanbedr neu Ysgol Stryd y Rhos
- Dwy ysgol, un safle, a phennaeth gweithredol yn rheoli'r ddwy ysgol,
- Un ysgol, dwy ffrwd ddiffiniedig ac ar wahân, Cymraeg a Saesneg, felly dewis clir o'r dechrau i rieni. Byddai'r system trochi yn dal i fod yno ar gyfer y disgyblion hynny o gefndiroedd Di-Gymraeg yn y ffrwd Gymraeg.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes cost sylweddol i'r broses statudol a chaiff ei gyfyngu o fewn adnoddau presennol. Bydd y gost ar arbedion llawn o'r prosiect, gan gynnwys unrhyw effaith ar gludiant ysgolion, yn dod yn glir fel y bydd yn datblygu a bydd argymhellion clir ynglyn ar rhain yn cael eu gwneud pan fo'n briodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae posibilrwydd cryf y gallai'r cynnig arwain at gyhoeddusrwydd anffafriol ar gyfer y Cyngor a sylwadau cyhoeddus andwyol.

Er mwyn lleihau'r risg hon, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau cyfathrebu clir gyda’r holl fudd-ddeiliaid.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Safonau a Sefydliadau Ysgolion (Cymru) 2013
Fframwaith Bolisi Moderneiddio Addysg (cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2009)